# Bil Cartrefi Symudol (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yn ystod Cyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i **Fil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2. **Dylid nodi y cafodd enw byr y Bil ei newid yn ystod Cyfnod 2, a Bil Cartrefi Symudol (Cymru) ydyw bellach.**

## Cefndir

Cafodd y Bil ei gyflwyno gan Peter Black AC, a oedd yn llwyddiannus yn y **balot** deddfwriaethol a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2011. Cafodd ganiatâd gan y Cynulliad i fwrw ymlaen â'i Fil ar **1 Chwefror 2012**, a gwnaeth ddatganiad yn ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn ar **7 Tachwedd 2012**. Cafodd y Bil ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** ('y Pwyllgor') i graffu arno yng Nghyfnod 1. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis **Chwefror 2013**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol **adroddiad** am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis. Fodd bynnag, gan fod y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd, Huw Lewis AC, wedi nodi yn ei dystiolaeth ei fwriad i gyflwyno gwelliannau pellgyrhaeddol i'r Bil yn Nghyfnod 2, bu i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatgan ei fwriad i graffu ar y Bil ymhellach a chyhoeddi adroddiad atodol cyn trafodion Cyfnod 3.

Cafodd egwyddorion cyffredinol y Bil eu cymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1, yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar **13 Mawrth 2013**. Dechreuodd Cyfnod 2 ar 14 Mawrth. Cafodd **105 o welliannau** eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, a chafodd pum gwelliant i'r gwelliannau hynny eu cyflwyno gan Aelod o'r wrthblaid (Mark Isherwood AC). Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau a'u gwaredu yn ei gyfarfod ar **13 Mehefin 2013**.

Mae gwybodaeth bellach am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil**, sydd wedi'i baratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Y gwelliannau a gytunwyd yng Nghyfnod 2

Cafodd pob un o welliannau Llywodraeth Cymru eu cytuno. Ni chafodd yr un o'r pum gwelliant a gyflwynwyd gan Mark Isherwood AC (a oedd i gyd yn welliannau i welliannau'r Llywodraeth) eu cytuno: ni chytunwyd pedwar ohonynt, ac ni chynigiwyd un ohonynt.

Effaith y 105 o welliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth oedd, yn y bôn, ailddrafftio'r Bil, er y **cadwyd bwriad polisi gwreiddiol y Bil fel y'i cyflwynwyd gan Peter Black AC**. Roedd y gwelliannau yn disodli'r adrannau gwreiddiol i gyd gydag adrannau newydd, gyda'r bwriad o wneud y Bil yn gliriach ac yn fwy cynhwysfawr, gan gydgrynhoi mewn un Bil yr holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â safleoedd a chartrefi symudol preswyl yng Nghymru (o *Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960, Deddf Safleoedd Carafannau 1968, a Deddf Cartrefi Symudol 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cartrefi Symudol 2013*), gyda rhai darpariaethau ychwanegol, a lleihau cyfanswm yr is-ddeddfwriaeth y byddai ei hangen i roi'r Bil ar waith, drwy barhau yn fras gyda'r dull a geir yn Neddf 1960.

Dyma grynhoi'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r Bil:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Gwelliannau technegol a diffiniadau

- Newidiodd **gwelliannau 65 a 99** enw byr y Bil i Fil Cartrefi Symudol (Cymru).
- Bu i **welliannau 1, 3, 5, 7, 9, 11, 13, 15, 17, 19, 21, 23, 25, 27, 29, 31, 33, 35, 37, 39, 41, 43, 45, 47, 49, 51, 53, 55, 57, 59, 61, 63 a 65** ddileu pob un o adrannau'r Bil fel y'i cyflwynwyd.
- Roedd **gwelliannau 2, 4 a 6** yn mewnosod adrannau 1, 2 a 3 newydd, sy'n rhoi trosolwg o'r Bil diwygiedig (adran 1 newydd), ac yn diffinio'r prif gysyniadau o ran 'safle rheoleiddiedig' a 'safle gwarchodedig' (a.2 newydd), a 'perchennog' y tir (a.3 newydd).
- Cafodd Atodlen newydd ei mewnosod gan **welliant 100**, a honno'n diffinio'r safleoedd hynny sydd wedi'u heithrio rhag bod yn safleoedd rheoleiddiedig, ac yn ailddatgan rhannau o *Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960* ('Deddf 1960').

## Gweinyddu, parhad a ffioedd trwyddedau safleoedd

- Roedd **gwelliant 10** yn ailadrodd rhannau o adran 1 o Ddeddf 1960, sy'n gwahardd perchnogion tir rhag sefydlu safleoedd cartrefi symudol preswyl heb drwydded ac sy'n darparu y bydd y sawl sy'n sefydlu safle o'r fath heb drwydded yn agored i ddirwy.
- Roedd **gwelliannau 12 a 14** yn darparu ynghylch gwneud cais am drwydded safle ac am ddyroddi trwyddedau safleoedd.
- Roedd **gwelliant 16** yn darparu bod trwyddedau safleoedd yn parhau mewn grym am hyd at bum mlynedd.
- Roedd **gwelliannau 70 a 71** yn cynnwys darpariaethau i roi'r pŵer i awdurdodau lleol i godi ffioedd a'i gwneud yn ofynnol iddynt gadw cofrestr o drwyddedau safleoedd.

## Amodau trwyddedau safleoedd

- Roedd y pedwerydd grŵp o welliannau (**gwelliannau 15, 18 i 20, 22 i 24, 26 a 28**) yn nodi'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i bennu amodau ar gyfer trwyddedau safleoedd ac i amrywio'r amodau hynny. Dywedodd y Gweinidog nad oedd dim byd newydd ynddynt o ran polisi, gan fod y gwelliannau yn y bôn yn ailadrodd y ddeddfwriaeth bresennol.

## Rheolwyr safleoedd i fod yn bersonau addas a phriodol

Roedd y pumed grŵp o welliannau yn sefydlu prawf personau addas a phriodol i'w gymhwyso i bersonau sy'n rheoli safleoedd yng Nghymru.

- Nododd **gwelliant 58** y dystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol i reoli safle rheoleiddiedig, a rhoddodd bwerau i Weinidogion Cymru i amrywio'r dystiolaeth honno drwy reoliadau.Roedd y gofyniad i'r person sy'n gyfrifol am reoli safle cartrefi symudol o ddydd i ddydd i fod yn berson addas a phriodol yn nodwedd allweddol o bolisi'r Bil fel y'i cyflwynwyd gan Peter Black AC.

## Dirymu ac ildio trwyddedau safleoedd

- Roedd **gwelliant 52** yn darparu ar gyfer dirymu trwydded safle pan fydd deiliad y drwydded yn marw neu pan na fydd yn berchen ar y tir mwyach, neu pan nad yw'r tir yn cael ei ddefnyddio fel safle rheoleiddiedig mwyach.
- Roedd **gwelliant 54** yn ailddatgan darpariaeth a gymerwyd o Ddeddf 1960 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau alluogi awdurdodau lleol i amrywio amodau trwyddedau safleoedd.

## Gorfodi amodau trwyddedau safleoedd

- Ar y cyd, roedd y gwelliannau yng ngrŵp 7 (**gwelliannau 30, 32 i 40, 42, 44 i 48, 50, 60 a 62**) yn cadw'r pwerau gorfodi a roddwyd i awdurdodau lleol yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, gan gynnwys pwerau i awdurdodau lleol roi hysbysiadau cosb benodedig a hysbysiadau cydymffurfio er mwyn gorfodi amodau trwyddedau safleoedd pan fyddant wedi'u torri.

## Pŵer mynediad i swyddogion awdurdodau lleol

- Roedd **gwelliant 64** yn rhoi pŵer mynediad i swyddog awdurdodedig awdurdod lleol, ac yn nodi'r achlysuron hynny pan fyddai swyddog awdurdodedig yn cael mynd i mewn i safle cartref symudol, ynghyd â'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth wneud hynny.

## Gorchmynion ad-dalu

- Roedd **gwelliant 66** yn cynnwys darpariaeth sydd â'r bwriad o gymell perchnogion i beidio â sefydlu safle cartrefi symudol rheoleiddiedig heb drwydded, gan roi caniatâd i breswylwyr hawlio costau gwerthu unrhyw leiniau neu'r comisiwn ar y gwerthiant yn ôl pe bai'n dod i'r amlwg nad oedd y safle wedi'i drwyddedu. Os bydd safle cartrefi symudol yn cael ei sefydlu heb drwydded safle, gall y Tribiwnlys Eiddo Preswyl ddyroddi gorchymyn ad-dalu i'r perchennog neu'r rheolwr.

## Cytundebau ar gyfer cartrefi symudol

- Roedd **gwelliannau 82 i 89** yn ychwanegu Rhan 4 newydd, yn seiliedig ar y gyfraith bresennol fel y mae'n gymwys i unrhyw gytundebau y mae person yn dibynnu arnynt i osod cartref symudol ar safle gwarchodedig ac i feddiannu'r cartref symudol hwnnw fel ei unig a'i brif breswylfa.

- Roedd **gwelliant 101** yn mewnnosod Atodlen newydd yn nodi telerau cytundebau cartrefi symudol, gan gynnwys gofyniad i'r perchnogion ymgynghori â'r preswylwyr am unrhyw newid o ran defnydd y safle (er enghraifft, newid o ddefnydd preswylio i safle cartrefi gwyliau).

## Cymdeithasau trigolion cymwys

- Roedd **gwelliant 95** yn nodi'r meini prawf ar gyfer 'cymdeithas trigolion gymwys', a hynny yn unol ag amcanion polisi gwreiddiol y Bil fel y'i cyflwynwyd.

## Gorchmynion, rheoliadau a chanllawiau

- Roedd **gwelliant 97** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion a rheoliadau, ac roedd **gwelliant 98** yn nodi'r darpariaethau cychwyn perthnasol.

## Amddiffyn rhag troi allan

- Yn eu hanfod, roedd y gwelliannau yng ngrŵp 14 (**gwelliannau 74 i 81**) yn ailddatgan darpariaethau perthnasol *Deddf Safleoedd Carafannau 1968* o ran amddiffyn rhag troi allan. Dywedodd y Gweinidog y byddai ailddatgan y gyfraith yn y maes yn gwneud llyfr statud Cymru yn haws i'w ddefnyddio ac yn llai cymhleth.

## Pwerau ychwanegol awdurdodau lleol

- Roedd y gwelliannau yn y grŵp olaf (**gwelliannau 90, 91 a 102**) yn ailadrodd darpariaethau a gymerwyd o Ddeddf 1960 (ynghylch y pŵer i ddarparu safleoedd ar gyfer cartrefi symudol ac i wahardd cartrefi symudol rhag sefydlu ar dir comin) ac nid oedd yn newid o sylwedd i'r gyfraith. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn cadarnhau'r darpariaethau er mwyn eglurder a chyflawnrwydd.

## Ymrwymiadau'r Gweinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymodd y Gweinidog Tai ac Adfywio newydd, Carl Sargeant AC, i ystyried a thrafod rhai materion penodol cyn y ddadl yng Nghyfnod 3. Dyma'r manylion perthnasol:

### Dangos dogfennau

- Cododd Jocelyn Davies AC bwynt mewn perthynas ag is-adran (5) o **welliant 18**, a oedd yn nodi'r angen i ddangos rhai dogfennau penodol, gan gynnwys biliau cyfleustodau, mewn man amlwg ar y tir bob amser. Holodd yr Aelod a fyddai modd cynnwys tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn y rhestr o ddogfennau i'w dangos hefyd. Dywedodd y Gweinidog bod y pwynt yn un rhesymol nad oedd neb wedi'i godi gydag ef o'r blaen, ac y byddai'n ystyried y mater ymhellach yng Nghyfnod 3.

### Terminoleg

- Cododd Jocelyn Davies AC gwestiwn am y derminoleg a arddelwyd yng **ngwelliannau 76 ac 89**, gan ddweud ei bod wedi dyddio braidd (e.e. 'person anghyfreithlon' a 'tad honedig'). Cytunodd y Gweinidog i edrych o'r newydd ar y geiriad a chynnig iaith mwy rhesymol yng Nghyfnod 3.

### Cymdeithasau trigolion cymwys

- Tynnodd Peter Black AC sylw'r Pwyllgor at y ffaith y byddai angen gwelliant pellach yng Nghyfnod 3 i gywiro un newid a wneir i'r Bil gan **welliant 95**, a hynny i ddileu is-adran (1)(h), a oedd yn golygu bod perchennog safle yn cael llais wrth gymeradwyo cymdeithas trigolion gymwys. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fwriad i geisio dileu'r ddarpariaeth honno yng Nghyfnod 3.

## Y camau nesaf

Paratowyd fersiwn ddiwygiedig o'r Bil gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth, yn dwyn ei enw byr newydd: **Bil Cartrefi Symudol (Cymru)**.

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 14 Mehefin 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Mae modd i Aelodau gyflwyno gwelliannau pellach drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth (**legislationoffice@cymru.gov.uk**) tan 6pm ar ddydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2013. Cynhelir y trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf 2013.

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc Deddfwriaeth, Helen Finlayson (**helen.finlayson@cymru.gov.uk**).